PDF Argraffu Cyfeirnodi

# PARRY, DAVID (1760 - 1821), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd

**Enw:** David Parry
**Dyddiad geni:** 1760
**Dyddiad marw:** 1821
**Priod:** Margaret Parry (née Evans)
**Plentyn:** Mariah Harries (née Parry)
**Rhiant:** Dafydd Parry
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Gomer Morgan Roberts

Ganwyd 13 Chwefror 1760 yn Llwyndiriad, Caeo, Sir Gaerfyrddin, mab Dafydd Parry. Ymunodd â'r Methodistiaid yn ieuanc a dechreuodd bregethu yn 1778. Bu'n efrydydd am dymor byr yn Nhrefeca. Priododd â Margaret Evans, Llofft-wen, Llanwrtyd, yn 1784, a symudodd i fyw i'r Gilfach, Llanwrtyd, c. 1797-8. Yr oedd yn un o'r fintai a neilltuwyd yn ordeiniad cyntaf y Methodistiaid yn Llandeilo Fawr, 1811. Yr oedd yn bregethwr nodedig iawn a gwasnaethai'n aml yn y sasiynau. Bu farw 27 Ebrill 1821, a chladdwyd ef y tu mewn i gapel Rhydybere.

## Awdur

**Y Parchedig Gomer Morgan Roberts**, (1904 - 1993)

## Ffynonellau

*Y Drysorfa*, 1834, 65

'Hen Bregethwyr Brycheiniog,' *Y Cylchgrawn: sef cyfrwng gwybodaeth grefydol a buddiol ac hanesion eglwysig a gwladol*, 1884, tt.86-88

*Methodistiaeth Cymru* (1851â€“6), iii, 335

Joseph Evans, *Biographical Dictionary of Ministers and Preachers of the Welsh Calvinistic Methodist Body â€¦ to the close of the year 1850* (1907), 234

J.M. Jones, *Ordeiniad 1811 ymysg y Methodistiaid Calfinaidd* (1911), 147

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732878

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

**Arddull APA**

×

Roberts, G. M., (1953). PARRY, DAVID (1760 - 1821), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-PARR-DAV-1760

Copïo i'r clipfwrdd

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATIO

Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government